**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Gubsawdd a Materion Gwledig

08 Ebrill 2024

Annwyl Huw

**Ardakiedd Draenio Mewnol**

Ar 19 Mawrth, cefais ymateb gan y Gweinidog Materion Gwledig blaenorol i gais am wybodaeth am effeithiolrwydd a chynaliadwyedd y dull presennol o reoli ardaloedd draenio mewnol, ac a oedd cyllid a chapasiti'n ddigonol i gefnogi'r gwaith hwnnw. Hysbysais y Gweinidog fod y Pwyllgor hefyd yn ysgrifennu at Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, UAC ac CNC am eu barn hwy.

Roedd ymateb y Gweinidog yn fyr ac yn brin o fanylion ac amserlenni ar gyfer gweithredu. Nododd fod gwaith i newid ffiniau ardaloedd draenio mewnol wedi arafu oherwydd ymrwymiadau deddfwriaethol eraill ond nad oedd yn mynd i'r afael â chynaliadwyedd parhaus cyfundrefn bresennol ardaloedd draenio mewnol. Mae'r ymatebion a gafwyd gan CNC ac UAC yn nodi bod materion sylweddol i'w datrys, gan gynnwys ynghylch gallu CNC i gyflawni'n effeithiol ei rôl fel Bwrdd Draenio Mewnol y 13 o ardaloedd draenio mewnol yng Nghymru. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn sgil newid hinsawdd a'r angen i warchod tir amaethyddol ffrwythlon a chynhyrchiol. Mae ymateb CNC yn galw am adolygiad:

*"Rydym o'r farn y dylid cynnal adolygiad o ddiben a rôl Byrddau Draenio Mewnol / Ardaloedd Draenio Mewnol, a'r model gweithredu, a byddem yn fodlon chwarae ein rhan mewn adolygiad o'r fath ochr yn ochr â'r holl randdeiliaid. Mae hyn yn cyd-fynd â'r angen i adolygu'n barhaus ein hymatebion rheoli perygl llifogydd cyfunol a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol ym mhob rhan o Gymru, ac nid dim ond yn yr Ardaloedd Draenio Mewnol, wrth i ni ymateb i'r heriau sylweddol o'r argyfyngau hinsawdd a natur."*

Atodir yr ymatebion a byddant yn cael eu cyhoeddi fel papurau i'w nodi yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 24 Ebrill. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn eu hadolygu ac yn rhoi esboniad mwy llawn i'r Pwyllgor o gynlluniau Llywodraeth Cymru yn hyn o beth, ac amserlenni clir ar gyfer rhagor o gamau. Gofynnwyd i'r Pwyllgor gynnal ymchwiliad i'r mater hwn, a hoffai gael ymateb llawnach gan Lywodraeth Cymru cyn bwrw ymlaen.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg